



TGAU

3020U20-1CH



S25-3020U20-1CH

DYDD MERCHER, 26 MAWRTH 2025 – PRYNHAWN
WEDNESDAY, 26 MARCH 2025 – AFTERNOON

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF CH (Diwrnod 2)
TEST CH (Day 2)

CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch **un** dasg.

Cewch hyd at 10 munud i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose **one** task.

You have up to 10 minutes' preparation time.

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

CHWARAEON. FAINT WYT TI'N WNEUD?

CORFF IACH, MEDDWL IACH

“Dw i wrth fy modd yn chwarae golff gyda dad ar y penwythnos ond mae fy ffrindiau yn dweud bod golff ddim yn chwaraeon go iawn. Maen nhw'n chwarae pêl-droed a rygbi!”

IOAN

“Hoffwn i wneud chwaraeon drwy'r dydd, bob dydd!”

BETHANY

CHWARAEON - OES RHAI DIM?

“Mae Miss Beynon addysg gorfforol yn cynnal gwersi jiwdo ar ôl ysgol bob dydd lau. Maen nhw'n wych. Hoffai hi weld mwy o ferched yn cymryd rhan.”


CHARLIE



ydy hyn yn ddigon?



Chwaraeon yn yr ysgol



Dylech chi wneud 30 munud o ymarfer corff 5 gwaith yr wythnos.

“Mae campfa newydd yn ein hysgol ni gyda chyfleusterau i'r anabl. Mae'r tîm pêl-fasged anabl yn ymarfer yna bob wythnos.”

DARLENE

Manteision gwneud chwaraeon:

- cadw'r corff yn iach
- cadw'r meddwl yn iach
- llai o broblemau iechyd
- cyfle i gymdeithasu
- osgoi gordewdra
- dysgu sgiliau fîm



“Dw i ddim yn gwneud llawer o chwaraeon – dim ond un wers yr wythnos yn yr ysgol. Fodd bynnag dw i'n mynd â'r ci am dro bob dydd ac yn cerdded tua thair milltir bob tro.”

GARETH



“ Mae nain yn 70 oed ym mis Mai.
Mae mam wedi trefnu parti
sympreidd. Bydd hi wrth ei bodd! ”

STEFFAN

DATHLIADAU



“ Karina, wyt ti'n mynd
i'r parti prom? ”

“ Nag ydw. Does gen i
ddim byd i wisgo – mae
dillad prom mor ddru! ”

“ Mae siop yn y dref ble ti'n gallu rhentu
dillad prom. Mae'r prisiau yn rhesymol. ”

“ Oes wir? Gallu i fynd yna ar ôl yr
ysgol. Diolch Dylan! ”

**Rhentu dillad prom. Syniad ardderchog
ac yn dda i'r amgylchedd!**



“ Aeth fy mrawd Tom i barti
pen-blwydd ei ffrind yn 18 oed.
Roedd alcohol yn y parti a daeth
Tom adref wedi yfed llawer
gormod. Doedd mam a dad
DDIM yn hapus! ”

JASON



Beth ydych chi'n ddathlu?

- pen-blwydd
- priodas
- babi newydd
- pasio prawf gyrru
- pasio arholiadau
- Nadolig



Hanukkah



Y Pasg



Eid

**Wyt ti am
ddathlu
gorffen
TGAU?**

“ I ddathlu gorffen TGAU dw i a fy
ffrindiau yn mynd i wersylla i Ynys Môn.
Gobeithio bydd y tywydd yn sych! ”

BETSAN

“ Rydyn ni'n dathlu pen-blwydd y ci yn
wyth oed yr wythnos nesa a bydd
hi'n cael anrhegion. Bydd hi hefyd yn
cael teisen arbennig i gŵn! ”

CRAIG




**PARTI HEB
ALCOHOL?
DIM
DIOLCH!**

Trowch y dudalen.
Turn over.

DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

Bydd fy chwaer yn gorffen Lefel A eleni hefyd ac yna'n mynd i Affrica i weithio yn wirfoddol gydag anifeiliaid. Hoffwn i fynd gyda hi ond dw i'n rhy ifanc!

ROBBIE



Dw i'n gobeithio mynd i ddosbarth 6 i astudio addysg gorfforol, busnes a Ffrangeg.

IWAN



Mae gwaith yn y caffi 'da fi yn barod a bydda i'n aros yno. Dw i eisiau cynilo arian er mwyn teithio Ewrop yn y dyfodol.

AIMEE



Hoffwn i wneud prentisiaeth. Coleg bob dydd Mawrth, Mercher a lau i astudio marchnata a busnes a bydda i'n gweithio gyda'r cyngor dydd Llun a dydd Gwener.

SEEMA



Mae cwmni gwerthu ceir Ford gyda dad a dw i wedi bod yn gweithio'n rhan-amser gyda fe ers pan oeddwn i'n un deg pedwar oed. Bydda i'n cael swydd llawn amser ar ôl TGAU. Dw i wedi mwynhau yr ysgol ond dw i ddim eisiau cario 'mlaen gyda fy addysg.

SASKIA



MAE'N COSTIO LLAWER I FYND I BRIFYSGOL.

- llety!
- costau byw!
- ffioedd prifysgol!


OND..... FYDD GWAITH WEDYN?

Dw i ddim yn aros yn yr ysgol ond bydda i'n colli fy ffrindiau!

JOSH

"Rydyn ni'n dysgu rhywbeth newydd bob dydd" meddai Mam. "Does dim diwedd i addysg!"

Ar ôl TGAU



Mae hi MOR anodd dewis:

- ysgol?
- gwaith?
- coleg?

Does dim syniad 'da fi!

